# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 25 Hydref 2023

Amser: 09.30 - 12.32

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13497

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Heledd Fychan AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Ken Skates AS |
| Tystion: | Sharon Davies, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)<br>Catherine Davies, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Gaynor Davies, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru<br>Liz Jones, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru<br>Catherine Falcus, Association of School and College Leaders (ASCL)<br>Mary van den Heuvel, National Education Union (NEU)<br>Mike O'Neill, Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) Cymru<br>Ioan Rhys Jones, UCAC<br>Urtha Felda, Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) |

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br><br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br><br>Sian Hughes (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Buffy Williams AS. Ni chafwyd dirprwy ar ei rhan.

## 2 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? – Sesiwn dystiolaeth 7

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru.

2.2 Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ymchwilio ymhellach i ba mor gyfredol yw strategaethau hygyrchedd awdurdodau lleol.

## 3 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? – Sesiwn dystiolaeth 8

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau.

3.2 Cytunodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau i wirio a oedd ganddynt unrhyw enghreifftiau o ddysgwyr ag anghenion ychwanegol sydd wedi profi bwlio yn yr ysgol, ac os felly, i'w rhannu â'r Pwyllgor.

## 4 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? – Sesiwn dystiolaeth 9

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan UCAC, NASUWT, NEU a NEU.

4.2 Datganodd Mary van den Heuvel o NEU ei bod yn Aelod o Bwyllgor Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru.

4.3 Cytunodd NEU i ddarparu ei adnoddau i Aelodau ar gynhwysiant anabledd.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? – Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn flaenorol.